

Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru
Adroddiad Blynyddol 2020-21 - Safonau'r Gymraeg

1. Rhagair

Dyma bedwerydd adroddiad blynyddol Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ("y Tribiwnlys") ar ei gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ers i'r Safonau ddod i rym ar 30 Mawrth 2017. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021.

Mae dwy ran i'r Tribiwnlys, sef yr ysgrifenyddiaeth a'r Aelodau. Mae'r ddwy yn gweithio gyda'i gilydd yn ystod y broses apelio a hawlio, gan wneud tasgau gwahanol. Yr Aelodau yw:

- cadeirydd y Tribiwnlys, hy yr arweinydd barnwrol;
- y dirprwy gadeiryddion; ac
- yr aelodau lleyg (sy'n arbenigo mewn draenio tir, perchnogaeth tir a ffermio).

Mae'r Tribiwnlys, ei aelodau a'i benderfyniadau yn annibynnol ar y Llywodraeth. Mae gan sawl un o aelodau'r Tribiwnlys sgiliau Cymraeg cryf, a gellir cynnull panel llawn (hy cadeirydd cyfreithiol a 2 aelod lleyg) a all gynnal gwrandawriad llawn drwy'r Gymraeg.

Mae'r ysgrifenyddiaeth yn gyfrifol am waith gweinyddol y Tribiwnlys a delio â'r holl ymholiadau ffôn ac ysgrifenedig. Gweision sifil yw'r rhain a gyflogir gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn rhan o Uned Tribiwnlysoedd Cymru, sy'n gyfrifol am weinyddu chwe thribiwnlys datganoledig ledled Cymru. Nid oes un o dîm yr ysgrifenyddiaeth yn rhugl yn Gymraeg, ond mae cymorth ysgrifenyddiaethau eraill uned ehangach Tribiwnlysoedd Cymru ar gael iddynt pan fo angen. Mae'r Uwch Reolwr Gweithrediadau a Phennaeth Tribiwnlysoedd Cymru yn rhugl yn y Gymraeg.

Dyddiad cyhoeddi: **13/08/2021**

Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau: AgriculturalLandTribunalWales@llyw.cymru

2. Trefniadau Goruchwylio Cydymffurfiaeth

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn wedi'i ddrafftio gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru ac wedi'i gymeradwyo gan Lywydd y Tribiwnlys Tir Amaethyddol.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn i'w weld ar wefan y Tribiwnlys, ac mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cael gwybod ei fod wedi'i gyhoeddi.

3. Asesu Cydymffurfiaeth

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Mae'r Tribiwnlys yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r safonau cyflenwi gwasanaethau trwy:

- Darparu canllawiau i staff am sut i ymateb i ohebiaeth, ateb y ffôn a negeseuon e-bost.
- Templedi llythyr, sy'n cynnig cyfle i gwsmeriaid ofyn am ohebiaeth yn Gymraeg yn y dyfodol.
- Mae'r holl ddogfennau a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys ffurflenni cais a chanllawiau.
- Mae pob tudalen ar ein gwefan ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyflwyno system ffôn newydd drwy Microsoft Teams ym mis Ebrill 2021. Bydd y Tribiwnlys yn defnyddio'r system newydd hon i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safonau 8 a 9 drwy sicrhau bod gan ddefnyddwyr y Tribiwnlys yr opsiwn o bwyso 1 i siarad ag aelod o'r tîm yn Gymraeg a phwyso 2 i siarad ag aelod o'r tîm yn Saesneg.
 - Wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn, mae'r system ffôn newydd wedi'i chyflwyno'n llwyddiannus i'r Tribiwnlys.

Defnyddio ein Gwasanaethau:

Ni ddaeth unrhyw geisiadau i sylw'r Tribiwnlys yn 2020-21, ac felly ni chynhaliwyd unrhyw wrandawiadau yn Gymraeg.

Gwefannau

Nodir isod fanylion y niferoedd o weithiau yr ymwelwyd â hafan y Tribiwnlys ar y rhyngwyd, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

| | Saesneg | Cymraeg | Cyfanswm |
|---|---------|---------|----------|
| Nifer o weithiau yr ymwelwyd â'r dudalen | 5,093 | 0 | 5,093 |

Safonau Llundio Polisi

Mae'r Tribiwnlys yn arfer ei swyddogaethau statudol yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n ei lywodraethu. Nid yw o fewn cylch gwaith y Tribiwnlys i ddatblygu polisi. Fodd bynnag, rydym yn ystyried effaith ein penderfyniadau gweithredol ar gyflenwi ein gwasanaethau trwy'r Gymraeg.

Safonau Cadw Cofnodion

Mae Hysbysiad Cydymffurfio y Tribiwnlys (sydd yn manylu ar y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Llundio Polisi, a Chadw Cofnodion y mae'n rhaid i'r Tribiwnlys gydymffurfio â hwy) wedi'i gyhoeddi ar wefan y Tribiwnlys:

<https://tribiwnlystiramaethyddol.llyw.cymru/sites/agriculturaland/files/2019-05/180323-alt-welsh-lang-standards-compliance-notice-cy.pdf>

Rydym yn cadw cofnod o nifer y cwynion a dderbyniwn, os bydd cwyn o gwbl, mewn perthynas â chydymffurfio â'r Safonau.

Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â gweithredu'r Safonau yn ystod y cyfnod adrodd.